**SWYDD-DDISGRIFIAD – SWYDDOG MAES Y GOGLEDD**

Mae llwyddiant ymgyrchoedd cenedlaethol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dibynnu ar weithgaredd ein haelodau ym mhob rhan o Gymru. Byddwch yn gyfrifol am ysbrydoli a hwyluso gweithgaredd gwirfoddol, annibynnol gan gelloedd a rhanbarthau, gan sicrhau bod y frwydr dros ddyfodol y Gymraeg yn digwydd ymhob cwr o Gymru.

Mae'r hyn sy'n digwydd mewn un rhanbarth yn effeithio ar Gymru gyfan. Byddwch yn gyfrifol am hybu ymgyrchoedd lleol y Gymdeithas, gan sicrhau sylw'r wasg ranbarthol, a chenedlaethol, mewn cydweithrediad â'r swyddog cyfathrebu. Byddwch chi'n gyfrifol am ledaenu ein neges a chynyddu aelodaeth ar hyd y rhanbarthau, gan annog aelodau i sefydlu a chynorthwyo celloedd lleol a grwpiau ymgyrch, gan gynnwys ysgolion, colegau a phrifysgolion. Mi fydd disgwyl i'r unigolyn fynychu rhai cyfarfodydd a digwyddiadau gyda'r nos ac ar y penwythnos.

Byddwch yn gyfrifol am dynnu ein haelodau lleol a'n cefnogwyr i mewn i ymgyrchoedd cenedlaethol mewn cydgysylltiad gyda'r Swyddog Cyfathrebu, ac am eu rhoi ar waith mewn ymgyrchoedd lleol.

**GOFYNION**

- Unigolyn brwdfrydig, gweithgar a threfnus;
- Mae gallu gyrru, trwydded yrru ddilys, a defnydd car yn angenrheidiol ar gyfer y swydd hon;
- Diddordeb byw ym mharhad yr iaith Gymraeg yn benodol, a gwybodaeth eang o faterion gwleidyddol yng Nghymru ac Ewrop;
- Llythrennedd cyfrifiadurol da gan gynnwys MS Office a/neu LibreOffice a rhaglenni dylunio;
- Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol gydag aelodau, y cyhoedd a'r wasg, ac i ysbrydoli gweithgaredd ar lefel unigol, cell a rhanbarth;
- Y gallu a'r parodrwydd i weithio ar ei liwt ei hunan ac i gydlynu gweithgaredd Cymdeithas yr Iaith yn rhanbarthau'r Gogledd, gan gynnwys gwaith cyfathrebu, lobïo ac ymgyrchu uniongyrchol;
- Parodrwydd i weithio a chydweithio mewn tîm o swyddogion maes eraill ledled Cymru.

**CYFRIFOLDEBAU MANWL**

- Datblygu trefniadaeth leol y Gymdeithas ar lefel celloedd a rhanbarth;

- Hybu ymgyrchoedd canolog y Gymdeithas ar lefel leol;
- Hybu ymgyrchoedd rhanbarthol y Gymdeithas (e.e. mewn perthynas ag Awdurdod Lleol penodol);
- Cynyddu aelodaeth a gweithgarwch y Gymdeithas ar draws y Gogledd;
- Codi arian;
- Datblygu perthynas gyda mudiadau eraill er lles y Gymraeg;
- Trefnu cyfarfodydd, digwyddiadau, ralïau ayb;
- Unrhyw anghenion rhesymol eraill gan Senedd y Gymdeithas.

**OS YW'R GYMRAEG I FYW RHAID I BOPETH NEWID!**

cymdeithas.cymru
@cymdeithas
facebook.com/cymdeithas